DINAS A SIR CAERDYDD
CITY AND COUNTY OF CARDIFF

| | |
|---|---|
| **GWYS Y CYNGOR** | DYDD IAU, 30 MAWRTH 2023 |
| **COUNCIL SUMMONS** | THURSDAY, 30 MARCH 2023, |

Fe'ch gwysir I fynychu cyfarfod **CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD**, a gynhelir yn Council Chamber - City Hall, Cathays Park, Cardiff, CF10 3ND on Dydd Iau, 30 Mawrth 2023 at 4.30 pm I drafod y materion a nodir yn yr agenda atodedig.

**Davina Fiore**
**Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol**

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW

Dydd Gwener, 24 Mawrth 2023

Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch at eraill   Gwrthrychedd a priodoldeb   Anhunaoldeb a stiwardiaeth
Uniondeb   Dyletswydd i gynnal y gyfraith   Atebolrwydd a bod yn agored

Trwy dderbyn y Pecyn Agenda hwn yn electronig, rydych wedi arbed yr Awdurdod tua. £ 14.36 mewn costau argraffu

**GWE-DARLLEDU**

Caiff y cyfarfod hwn ei ffilmio i'w ddarlledu'n fyw a/neu yn olynol trwy wefan y Cyngor.  Caiff yr holl gyfarfod ei ffilmio, heblaw am eitemau eithriedig neu gyfrinachol, a bydd y ffilm ar gael ar y wefan am 12 mis.  Cedwir copi o'r recordiad yn unol â pholisi cadw data'r Cyngor.

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a gaiff y cyfarfod cyfan neu ran ohono ei ffilmio.  Fel rheol, ni chaiff ardaloedd y cyhoedd eu ffilmio. Fodd bynnag, wrth fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r ardal gyhoeddus, mae aelodau'r cyhoedd yn cydsynio i gael eu ffilmio ac y defnyddir y lluniau a recordiadau sain hynny o bosibl at ddibenion gwe-ddarlledu a/neu hyfforddi.

Os oes gennych gwestiynau ynghylch gwe-ddarlledu cyfarfodydd, cysylltwch â'r Gwasanaethau Pwyllgorau ac Aelodau ar 02920 872020 neu e-bost Gwasanethau Democrataidd

| *Eitem* | | *Tua Amser* | *Max Amser* |
|---|---|---|---|
| **1** | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br>*Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.* | 4.30 pm | |
| **2** | **Datgan Buddiannau**<br>*Derbyn datganiadau buddiannau (i'w gwneud yn unol â'r Cod Ymddygiad Aelodau)* | | |
| **3** | **Cofnodion** *(Tudalennau 11 - 24)*<br>*Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2023 yn wir gofnod.* | | |
| **4** | **Cwestiynau gan y Cyhoedd**<br>*Clywed y cwestiynau a gyflwynwyd gan Aelodau'r Cyhoedd o flaen llaw.* | | |
| **5** | **Deisebau**<br>*Derbyn deisebau gan Aelodau Etholedig i'r Cyngor.* | 4.30 pm | 5 mins |
| **6** | **Cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer**<br>*Clywed cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer gan gynnwys Cydnabyddiaethau a Gwobrau.* | 4.35 pm | 5 mins |
| **7** | **Cynllun Lles Lleol Caerdydd 2023-2028** *(Tudalennau 25 - 150)*<br>*Cynnig y Cabinet* | 4.40 pm | 15 mins |
| **8** | **Polisi Tâl 2023 - 2024** *(Tudalennau 151 - 182)*<br>*Cynnig y Cabinet* | 4.55 pm | 15 mins |
| **9** | **Datganiad Cyfrifon 2022-2023** *(Tudalennau 183 - 418)*<br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Adnoddau* | 5.10 pm | 15 mins |
| **10** | **Protocol a Gweithdrefn Datrys Lleol** *(Tudalennau 419 - 432)*<br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Chyfreithiol a Swyddog Monitro* | 5.25 pm | 15 mins |
| **11** | **Swyddogaeth Gaffael Cyngor Bro Morgannwg** *(Tudalennau 433 - 438)*<br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Adnoddau* | 5.35 pm | 10 mins |
| **12** | **Arglwydd Faer a Dirprwy Arglwydd Faer Etholedig 2023-2024** *(Tudalennau 439 - 440)*<br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Chyfreithiol a Swyddog Monitro* | 5.45 pm | 10 mins |
| **13** | **Datganiadau Aelodau'r Cabinet** *(Tudalennau 441 - 482)*<br>*Derbyn datganiadau gan yr Arweinydd ac Aelodau'r Cabinet* | 5.55 pm | 45 mins |

| Egwyl | | | |
|---|---|---|---|
| 14 | **Hysbysiad o Gynnig 1**<br><br>***Cynigiwyd gan: Joel Williams***<br>***Eiliwyd gan: Catriona Brown-Reckless***<br><br>*Mae gan Gyngor Caerdydd bwerau statudol i gymryd camau gorfodi yn erbyn datblygwyr sy'n torri amodau cynllunio. Mae nifer fach o ddatblygwyr bach a mawr yn methu â chydymffurfio â'u hamodau cynllunio ac mae rhai yn torri eu hamodau cynllunio'n ddybryd. Mae Cyngor Caerdydd yn methu â chymryd camau gorfodi yn erbyn y toriadau parhaus hyn.*<br><br>*Mae'r Cynnig hwn yn galw ar Gyngor Caerdydd, wrth gyflawni ei gyfrifoldebau statudol fel Awdurdod Cynllunio Lleol, i sicrhau bod camau cadarn yn cael eu cymryd yn erbyn datblygwyr sy'n torri eu hamodau cynllunio yn gyson, gan gynnwys defnyddio gorchmynion gwahardd, yn atal datblygwyr rhag parhau â'u datblygiadau nes eu bod yn cydymffurfio â'u hamodau cynllunio.* | 6.55 pm | 30 mins |
| 15 | **Hysbysiad o Gynnig 2**<br><br>***CYNIGYDD: Y Cynghorydd JACKIE JONES***<br>***EILYDD: Y Cynghorydd ED STUBBS***<br><br>*Noda'r Cyngor hwn y canlynol:*<br><br>*Mae cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn un o gonglfeini ein cymdeithas. Ochr yn ochr â dyletswyddau cydraddoldeb eraill, mae'n sicrhau bod ein holl ddinasyddion yng Nghaerdydd yn cael eu gwasanaethu'n dda gan y Cyngor.*<br><br>*Er mwyn mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn yng Nghaerdydd, mae angen adnewyddu'r rhaglenni, y polisïau a'r golygon a rhagor o bwyslais. Mae'r tasglu cydraddoldeb hiliol, ei gasgliadau a'i gynllun gweithredu yn enghreifftiau o'r fath. Mae dyletswydd cydraddoldeb rhywiol y sector cyhoeddus yn un arall. Mae'r rhain i gyd yn croestorri i greu Caerdydd y gallwn ni i gyd fod yn falch ohoni ac eisiau byw ynddi.*<br><br>*Arwyddwyd a chadarnhawyd y CEDAW (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddiddymu pob Math o Wahaniaethu) dan lywodraeth Geidwadol Margaret Thatcher. Mae'n darparu rhestr o hawliau a rhyddid i fenywod a merched yn y DU, gan gynnwys i fenywod a merched yng Nghaerdydd. Mae angen newid diwylliant er mwyn i'r hawliau hyn gael eu cyflawni'n llawn.* | 7.25 pm | 30 mins |

*I fwrw 'mlaen â'r hawliau i fenywod a merched fe addawodd Maniffesto Llafur Caerdydd wneud Caerdydd yn ddinas CEDAW o fewn dwy flynedd i'r etholiad.*

*Mae CEDAW yn darparu fframwaith, gweithredoedd ac egwyddorion y gall Cyngor Caerdydd eu cymryd sy'n cyd-fynd â nodau Deddf VAWDASV (Cymru) 2015, Rhaglen Llywodraethu Llywodraeth Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, Caerdydd - Dinas sy'n Dda i Blant, dinas wrth-hiliol.*

*Mae trais yn erbyn menywod a merched yn dreiddiol ac mae wedi cael ei ystyried gan Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig i fod y math o dorri hawliau dynol mwyaf eang heddiw. Mae un fenyw yn cael ei lladd gan ei phartner neu gyn-bartner bob tri diwrnod. Mae ffigyrau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer Caerdydd, Arolwg Holi Caerdydd 2021 ac ymchwil Cymorth i Fenywod yng Nghymru i gyd yn amlygu bod menywod yn teimlo'n llawer llai diogel na dynion mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys cerdded ar y strydoedd, yn enwedig ar ôl iddi dywyllu, boed yn eu cymdogaeth neu yng nghanol y ddinas, bod aflonyddu rhywiol yn bryder mawr a bod merched yn cael eu targedu gan ddynion i'w hecsbloetio.*

*I newid diwylliant rhywiaeth a chasineb at fenywod mae angen i Gyngor Caerdydd gymryd camau effeithiol.*

*Mae'r argyfwng costau byw sy'n cael eu hachosi gan y Torïaid unwaith eto wedi tynnu sylw at y ffaith bod menywod yn cael eu heffeithio'n negyddol yn wahanol i ddynion gan fod eu grym economaidd a chymdeithasol cymharol yn llai na'r rhan fwyaf o ddynion. Er enghraifft, yn ôl ffigyrau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn 2021, er bod mwy o fenywod na dynion yn byw yng Nghaerdydd (pob oedran), mae llai o fenywod yn gyflogedig, mae menywod yn cael eu talu llai, mae mwy o fenywod yn rhai sy'n rhoi gofal (di-dâl) ac yn gweithredu llai o gwmnïau neu fusnesau bach a chanolig. Mae'r anghyfartaledd yn tyfu.*

*Mae hyn hefyd yn plethu ag anabledd, hil, oedran a chyfeiriadedd a hunaniaeth rhywiol.* Er enghraifft, gofynnodd canlyniad arolwg y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol am fwy o amrywiaeth yn y sector cyhoeddus. Roedd Adroddiad Locked-Out 2021 yn disgrifio sut yr oedd gan bobl anabl 'lai o fynediad at wasanaethau cyhoeddus a chymorth cymdeithasol'.

*Mae'r strategaeth ddrafft Trais yn erbyn Menywod Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i gyrraedd gerbron y Cabinet ym mis Mai.*

*Mae'r Cyngor yn penderfynu:*

*I ddarparu cyngor a gwybodaeth trwy'r Hybiau a Llyfrgelloedd cymunedol ledled Caerdydd i helpu menywod a merched gael mynediad at yr holl fudd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt, gan gynnwys llyfryn hawliau.*

*I greu rhaglen o weithgareddau, wedi'i llywio gan fenywod a merched, i rymuso ac ennyn diddordeb menywod a merched, gan gynnwys 'Gŵyl hawliau', 'Hyrwyddwyr Cydraddoldeb' a phrosiectau effaith gymdeithasol yng Nghaerdydd.*

*I sicrhau bod mwy o Fannau Diogel ledled Caerdydd, gan gynnwys menywod a merched wrth eu creu.*

*I gyflawni strategaeth a chanlyniadau VAWDASV cryf i gynyddu diogelwch pob menyw a merch yng Nghaerdydd.*

*I sicrhau bod strategaeth VAWDASV Caerdydd yn adlewyrchu CEDAW ac yn cynnig uchelgais glir a chyflawniadau tuag at roi diwedd ar bob math o drais yn erbyn menywod a merched.*

*I adolygu ein rhaglen o hyfforddiant cydraddoldeb/cynhwysiant i sicrhau bod egwyddorion CEDAW yn cael eu hamlygu eu prif ffrydio a'u darparu drwy hyfforddiant o'r fath ar gyfer staff a swyddogion y Cyngor, gan gynnwys staff rheng flaen.*

*I roi mesurau ar waith sy'n sicrhau bod gweithlu'r Cyngor yn fesuradwy yn fwy cynrychioliadol a chynhwysol o'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Mae hyn yn cynnwys cryfhau a dathlu gwaith ein rhwydwaith cydraddoldeb.*

*I sicrhau bod egwyddorion CEDAW wedi'u gwreiddio ym mhob penderfyniad, gydag asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael eu cyflwyno i bwyllgorau craffu, gan gyflawni dyletswydd y sector cyhoeddus ar rywedd.*

*I fyw drwy esiampl: parhau i osod atebolrwydd am gam-drin ar y rhai sy'n achosi niwed, drwy herio a newid diwylliant rhywiaeth a chasineb at fenywod, trwy weithgareddau ac ymyriadau sy'n mynd i'r afael ag ymddygiadau niweidiol a hyrwyddo dileu gwahaniaethu yn erbyn menywod i bobl o bob rhyw.*

*I ddatgan bod Caerdydd yn 'Ddinas CEDAW'.*

*Galw ar y Cabinet i gyflwyno adroddiad gyda chynigion amserlen pendant er mwyn cyflawni'r materion a godwyd*

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *yn y cynnig hwn.* | | |
| **16** | **Hysbysiad o Gynnig 3**<br><br>***Cynigiwyd gan y Cynghorydd Rhys Taylor***<br>***Eiliwyd gan y Cynghorydd Joseph Carter***<br><br>*Noda'r cyngor y canlynol:*<br><br>• *mae digartrefedd yn ddinistriol, yn beryglus ac yn ynysu.*<br>• *y cyfartaledd oedran marwolaeth pobl sy'n profi digartrefedd yw 46 i ddynion a 42 i fenywod.*<br>• *Mae pobl sy'n cysgu ar y stryd bron i 17 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi dioddef trais. Mae mwy nag un o bob tri pherson sy'n cysgu ar y stryd wedi cael ei daro neu ei gicio neu brofi rhyw fath arall o drais tra'n ddigartref.*<br>• *Mae pobl sy'n profi digartrefedd dros naw gwaith yn fwy tebygol o gymryd eu bywyd eu hunain na'r boblogaeth yn gyffredinol.*<br>• *Mae pobl LHDTC+ yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan ddigartrefedd ymhlith pobl ifanc gyda 24% o'r boblogaeth ddigartref ymhlith pobl ifanc ar draws y DU wedi'i nodi fel LHDT.*<br>• *Mae Cyngor Newcastle wedi ymrwymo i gynlluniau i ddod â digartrefedd i ben yn eu hardaloedd lleol, gan edrych ar gyflenwad, atal, ail-gartrefu, y sector rhentu preifat, a chymorth lles.*<br><br>*Mae'r cyngor hwn o'r farn nad yw digartrefedd yn anochel ac mae modd rhoi diwedd arno, ac mae'n galw ar y weinyddiaeth i sefydlu Tasglu Digartrefedd sydd â'r dasg o ddatblygu cynllun i ddod â digartrefedd i ben yng Nghaerdydd sy'n cynnwys:*<br><br>· *Rhoi diwedd ar y defnydd o bensaernïaeth gas yn yr amgylchedd adeiledig*<br><br>· *Gosod ymgysylltiad â Heddlu De Cymru i roi diwedd ar yr holl ddefnydd o'r Ddeddf Crwydraeth a mesurau gwrth-ddigartrefedd cysylltiedig*<br><br>· *Gwella llety dros dro, gan gynnwys i grwpiau bregus fel LHD a phobl traws*<br><br>· *Cynyddu'r gyfran gyffredinol o dai cymdeithasol yn y ddinas*<br><br>· *Gosod opsiynau'n ymwneud â chynyddu premiymau'r dreth gyngor ar gartrefi gwag ac ail gartrefi i 300% i gefnogi gweithgarwch tai a* | 7.55 pm | 30 mins |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *digartrefedd.* | | |
| **17** | **Cwestiynau ar Lafar**<br>*Clywed cwestiynau ar lafar i'r Arweinydd, Aelodau'r Cabinet; Cadeiryddion y Pwyllgor a/neu Aelodau enwebedig o'r Awdurdod Tân.* | 8.25 pm | 80 mins |
| **18** | **Materion Brys** | | |
| **Materion Cyngor nas Gwrthwynebir** | | | |
| **19** | **Cylch Gorchwyl Bwrdd Pensiwn Lleol - Diwygiadau** *(Tudalennau 483 - 492)*<br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Adnoddau* | 9.45 pm | |
| **20** | **Penodi Cyfarwyddwyr Anweithredol Annibynnol - Bws Caerdydd** *(Tudalennau 493 - 496)*<br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro* | | |
| **21** | **Aelodaeth Pwyllgorau** *(Tudalennau 497 - 500)*<br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro* | | |
| **22** | **Penodi Llywodraethwyr Awdurdodau Lleol i Gyrff Llywodraethu Ysgolion** *(Tudalennau 501 - 504)*<br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Swyddog Monitro* | | |
| **23** | **Cwestiynau Ysgrifenedig**<br>*Yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, Rheol 17(f), caiff Cwestiynau Ysgrifenedig eu hystyried a'r ymateb ei gynnwys fel cofnod yng nghofnodion y cyfarfod.* | | |